Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

**Carwyn Jones AC**
Y Prif Weinidog

29 Hydref 2014

Annwyl Brif Weinidog

**Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, 2015-16**

Diolch ichi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 23 Hydref 2014 i ateb cwestiynau am gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16, yn benodol ynglŷn â'r Gymraeg.

Hoffai'r Pwyllgor dynnu eich sylw at y materion a nodir isod, ac edrychwn ymlaen at gael eich ymateb, fel y bo'n briodol, cyn gynted â phosibl.

Nodwn fod ystyriaethau'r Pwyllgor Cyllid ynghylch y gyllideb ddrafft wedi'u seilio ar y pedwar amcan ar gyfer craffu ariannol, sef fforddiadwyedd; blaenoriaethu; gwerth am arian; a phrosesau cyllidebol. Rydym wedi cymhwyso'r amcanion hyn yn ein hystyriaethau, lle y bo'n briodol. Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Cyllid er mwyn llywio ei ystyriaethau cyffredinol ynghylch y gyllideb ddrafft a bydd hefyd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

**1. Ailflaenoriaethu cyllidebau**

Rydym yn nodi'r gostyngiadau yn y Llinellau Gwariant yn y gyllideb ddrafft ar gyfer y Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg. Rydym hefyd yn nodi'r gostyngiad "tebyg am debyg" o £600,000 ar gyfer y Llinell Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg. Rydym yn gwerthfawrogi'r eglurhad yr ydych wedi'i roi sy'n dweud er y bu cyllid ychwanegol ar gyfer rhai rhaglenni Cymraeg, bod hyn o

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth/ Policy and Legislation Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8032
Ebost / Email: Pwyllgor.CCLlG@cymru.gov.uk

ganlyniad i ailflaenoriaethu ac y bu gostyngiad cyffredinol mewn cyllid i'r Gymraeg.

Rydym yn ymwybodol bod cyllid ar gyfer rhai rhaglenni Cymraeg wedi gostwng er mwyn blaenoriaethu'r gwaith o gyflawni amcanion polisi *Bwrw Mlaen*. Gwnaethoch yn glir bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu canolbwyntio ei hymdrechion ar bobl ifanc a sicrhau y gall y genhedlaeth nesaf siarad Cymraeg a'i defnyddio, yn ogystal â hyrwyddo'r iaith drwy dechnoleg ddigidol. Er ein bod yn cydnabod bod y rhain yn elfennau pwysig o'r gwaith sydd ei angen i gynnal y Gymraeg, mae gennym bryderon am effaith yr ailflaenoriaethu hwn ar y cymorth sydd ar gael i ddysgwyr Cymraeg, yn enwedig dysgwyr sy'n oedolion. Rydym yn disgwyl i chi fonitro'r effaith hon yn agos a byddwn yn edrych ar y mater hwn eto ar adeg briodol.

Byddwch yn ymwybodol, ar ôl eich ymddangosiad gerbron y Pwyllgor, i ni glywed tystiolaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) ynghylch ei Hadroddiad Blynyddol 2013-14. Yn ystod y sesiwn, pwysleisiodd yr angen i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau strategol, cyllidebol neu bolisi yn ymwneud â'r Gymraeg yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a dealltwriaeth glir o effeithiau posibl y penderfyniadau hynny. Rydym yn rhannu'r farn hon ac yn credu bod y rhain yn hanfodol i'r broses o gynllunio'r gyllideb. Gwnaethoch ddweud wrthym fod y penderfyniad i ailflaenoriaethu cyllid i gyflawni amcanion *Bwrw Mlaen* yn seiliedig i raddau helaeth ar ganlyniad *y Gynhadledd Fawr*. Er ein bod yn cydnabod hyn, byddem wedi hoffi cael gwybodaeth fanylach am y dystiolaeth yr ydych wedi'i defnyddio i ailflaenoriaethu cyllidebau ar gyfer y Gymraeg. Ar fater cysylltiedig, gwnaethoch dynnu sylw at yr angen i sicrhau gwariant effeithiol, yn benodol o fewn cyd-destun yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Felly, hoffem i chi ddarparu rhagor o fanylion am y canlyniadau yr ydych yn eu disgwyl o ganlyniad i'r ailflaenoriaethu a'r amserlenni disgwyliedig ar gyfer cyflawni'r rhain.

## 2. Y Gymraeg mewn cyllidebau prif ffrwd

Rydym yn cydnabod, yn ogystal â'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb sy'n ymwneud yn benodol â chyllid y Gymraeg, y bydd gwariant o fewn portffolios Gweinidogion eraill a ddefnyddir i gefnogi neu ddiogelu'r Gymraeg. Ar ôl inni ofyn i chi beth oedd cyfanswm y gwariant sydd ar gael ar gyfer 2015-16 yn y cyd-destun hwn, gwnaethoch ddweud ei bod yn anodd iawn dadelfennu'r ffigurau ym mhob adran, yn enwedig gyda gwasanaethau cyhoeddus ac iechyd. Er gwaethaf hyn, rydym yn siomedig nad oeddech yn gallu rhoi darlun cliriach i ni o'r cyllid ar gyfer y Gymraeg ar draws portffolios y Gweinidogion. Cawsom ein calonogi gan dystiolaeth y Comisiynydd ynghylch y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i wella'r gwaith o brif ffrydio'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod y Comisiynydd wedi awgrymu hefyd nad yw hyn yn cael ei wneud eto mewn ffordd gynhwysfawr, ac felly byddem yn hoffi i chi ystyried sut y gellir gwella mewn perthynas â hyn. Ar ben hynny, rydym yn credu y dylech ystyried sut y gall cyllid prif ffrwd ar gyfer y Gymraeg gael ei nodi'n well er mwyn helpu i lywio gwaith craffu ar gyllideb ddrafft y flwyddyn nesaf. Byddem yn hoffi i chi adrodd yn ôl i ni ar y materion hyn.

## 3. Asesiadau Effaith

Mae'r angen i asesu effaith penderfyniadau cyllidebol yn well ar y Gymraeg ar draws portffolios y Gweinidogion wedi bod yn thema barhaus yn ein gwaith craffu cyllidebol. Mae hyn yn rhywbeth y nododd Llywodraeth Cymru fel maes ar gyfer gwella yn yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a oedd yn cyd-fynd â chyllideb ddrafft y llynedd. Felly, roeddem yn falch o glywed bod yr holl adrannau wedi cael canllawiau i'w helpu i baratoi eu cyllidebau drafft eleni. Roeddem hefyd yn falch o'r adroddiad gan eich swyddog a oedd yn dweud bod adrannau eisoes yn gwneud gwelliannau o ran sut y maent yn adolygu ac asesu gwariant ar y Gymraeg.  Serch hynny, roeddem yn siomedig ynghylch y diffyg manylion yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol am y gwaith a wnaed yn hyn o beth. Heb wybodaeth o'r fath, mae'n anodd i ni lunio barn ar gadernid yr asesiadau ac i ba raddau y maent wedi dylanwadu ar benderfyniadau cyllidebol. Hoffem ailadrodd y pwynt a wnaed yn ystod y cyfarfod y disgwyliwn i Asesiadau Effaith Integredig Strategol yn y dyfodol adlewyrchu'n well y gwaith a wnaed ar draws adrannau i asesu effaith penderfyniadau cyllidebol ar y Gymraeg. Yn ogystal, hoffem i Asesiadau Effaith Integredig Strategol gynnwys asesiad o effaith gronnol y penderfyniadau hynny ar y Gymraeg.

## 4. Safonau'r Gymraeg

Rydym yn nodi eich honiad y bydd cyflwyno Safonau'r Gymraeg (y Safonau) ym mis Mawrth 2015 o dan *Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011* yn cryfhau proses yr asesiadau effaith ac i sicrhau cysondeb ar draws adrannau. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn dymuno ei brofi ymhellach pan fyddwn yn edrych ar gyllideb ddrafft y flwyddyn nesaf.

Gwnaethoch ddweud wrthym fod asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i gynnal ar y Safonau arfaethedig a bod y costau cydymffurfio amcangyfrifedig a ddarparwyd gan sefydliadau yr effeithir arnynt gan y Safonau yn amrywio. Gwnaethoch hefyd ddweud wrthym fod y sefydliadau hyn eisoes yn gorfod talu costau sy'n gysylltiedig â'u Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol, y bydd y Safonau yn eu disodli. Felly, byddech yn disgwyl iddynt amsugno'r gost o gydymffurfio â'r Safonau o fewn eu cyllidebau eu hunain. Er nad ydym wedi ystyried yr amcangyfrifon costau a nodwyd yn yr asesiad effaith rheoleiddiol, mae gennym rai pryderon am y dybiaeth hon, yn enwedig o ystyried na fyddwch yn gallu rhoi'r effeithiau disgwyliedig terfynol i ni tan y bydd y safonau ar waith. Felly, hoffem i chi barhau i adolygu'r costau cydymffurfio a byddwn yn edrych ar y mater hwn eto ar adeg briodol. At hynny, byddem yn croesawu eglurhad gennych am y canlyniadau yr ydych yn disgwyl iddynt gael eu cyflawni o ganlyniad i'r Safonau ar ben y gyfundrefn reoleiddio bresennol.

## 5. Cyllideb Comisiynydd y Gymraeg

Nodwn y gostyngiad arfaethedig o 8% yn y gyllideb ddrafft ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg yn 2015-16. Mae hyn yn dilyn y gostyngiad o 10% mewn cyllid ar gyfer y Comisiynydd yn 2014-15. Roeddem yn falch o glywed gan y Comisiynydd ei bod wedi cael mwy o rybudd am y gostyngiad arfaethedig gan eich swyddogion o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Gan ystyried y cyfyngiadau ariannol presennol, rydym yn derbyn bod peth gostyngiad mewn cyllid ar gyfer y Comisiynydd yn anochel. Fodd bynnag, rydym yn deall gan y Comisiynydd y bydd ei chyllideb wedi gostwng 24.8%, mewn termau real, erbyn 2016, sef dim ond pedair blynedd ers sefydlu ei swydd. Dywedodd wrthym y byddai'r gostyngiad arfaethedig eleni yn cael "effaith sylweddol" ar waith ei swyddfa, yn enwedig y gwaith anstatudol, gan gynnwys prosiectau arloesol yn y trydydd sector a'r sector preifat. Byddem yn croesawu ymateb gennych ynghylch hyn. Yn fwy penodol, byddem hefyd yn croesawu eglurhad gennych o ran a gafodd effaith y gostyngiad arfaethedig ar waith anstatudol y Comisiynydd ei hystyried fel rhan o'r broses o benderfynu ar y gyllideb.

Ar bwynt ehangach, cwestiynodd y Comisiynydd i ba raddau y mae'n briodol yn gyfansoddiadol i'w chyllideb gael ei dyrannu gan Weinidogion Cymru o ystyried y bydd yn fuan yn gyfrifol am reoleiddio cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â'r Safonau. Hoffem gael eich barn ar hyn.

Yn olaf, roeddem yn bryderus o glywed gan y Comisiynydd am yr oedi cyn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol 2013-14 Llywodraeth Cymru ar ei Chynllun Iaith Gymraeg ei hun. Rydym yn ymwybodol eich bod wedi cyhoeddi'r Adroddiad yn fuan ar ôl ymddangosiad y Comisiynydd gerbron y Pwyllgor. Er ein bod yn falch bod yr Adroddiad bellach ar gael, byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi eglurhad dros yr oedi.

## 6. Cyllideb y Gymraeg mewn Addysg

Rydym yn pryderu am drosglwyddo £5.13 miliwn o'r Grant Cymraeg mewn Addysg, y gwnaethoch ddweud wrthym y bydd yn lleihau'r cymorth sydd ar gael gan awdurdodau lleol i ysgolion ar gyfer addysgu'r Gymraeg a Chymraeg ail iaith. Rydym hefyd yn nodi'r gostyngiad "tebyg am debyg" o £600,000 ar gyfer Llinell Gwariant y Gyllideb ar gyfer Cymraeg mewn Addysg. Yn benodol, rydym yn pryderu am effaith hyn ar gyflawni *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* Llywodraeth Cymru, yn enwedig gan ei bod yn ymddangos fel petai rhai o'i phrif dargedau yn methu. Wrth ymateb i'r pryder hwn, gwnaethoch gyfeirio at sicrwydd cyllido o 1% y Llywodraeth ar gyfer ysgolion. Fodd bynnag, rydym yn nodi y bydd y sicrwydd hwn yr un mor berthnasol i ysgolion Cymraeg a Saesneg. Gan ystyried y ffactorau hyn, rydym yn ansicr am sut y mae'r Llywodraeth yn disgwyl gwneud cynnydd tuag at dargedau yn y *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*. Byddem yn croesawu eglurhad mwy manwl gennych ynghylch y mater hwn a sut yr ydych wedi asesu effaith debygol y penderfyniadau ariannu yr ydych wedi'u gwneud yn hyn o beth ar y canlyniadau. Yn gysylltiedig â hyn, hoffem hefyd gael gwybodaeth am eich dealltwriaeth i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn ateb y galw am addysg cyfrwng Cymraeg mewn gwirionedd.


## 7. Y Bil Cynllunio (Cymru)

Rydym yn ymwybodol, yn groes i argymhelliad Comisiynydd y Gymraeg, nad yw'r Bil Cynllunio (Cymru) yn gwneud darpariaeth a fyddai'n gorfodi awdurdodau

cynllunio i ystyried y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau. Rydym hefyd yn ymwybodol bod y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wrthi'n ystyried y Bil ac, oherwydd hynny, ni fyddem yn dymuno achub y blaen ar unrhyw gasgliadau a allai godi mewn cysylltiad â'r Gymraeg. Fodd bynnag, roeddem yn falch o glywed bod Llywodraeth Cymru yn agored i awgrymiadau o ran agweddau strwythurol y Bil, y gellid eu cryfhau o ran yr iaith.

Ar fater cysylltiedig, gwnaethoch ddweud bod disgwyl i awdurdodau lleol ystyried TAN 20 a chynnal asesiadau effaith ar y Gymraeg wrth ddatblygu ac adolygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Gwnaethoch hefyd ddweud wrthym eich bod wedi datblygu pecyn asesiadau effaith ar gyfer awdurdodau lleol i'w helpu i wneud y gwaith hwn, ac rydym yn croesawu hynny. Hoffem gael eglurhad i ba raddau y mae'r pecyn yn cael ei ddefnyddio gan awdurdodau wrth ddatblygu ac adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol. Hoffem hefyd glywed eich barn o ran a ydych yn credu bod TAN 20 a'r pecyn yn ddull digon cryf i sicrhau bod awdurdodau lleol ac arolygwyr cynllunio yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r Gymraeg yn y broses o wneud penderfyniadau cynllunio.

Yn gywir



**Christine Chapman AC**

Cadeirydd

copi at Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid